OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 89

# Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2020

**Cymhwyso darpariaethau'r Ddeddf**

**4.**—(1) Mae adran 10(1) a (2) o'r Ddeddf (hysbysiadau gwella) yn gymwys, gyda'r addasiad (yn achos adran 10(1)) a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 2, at ddibenion—

(a) galluogi i hysbysiad gwella gael ei gyflwyno i berson, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw sicrhau cydymffurfedd ag unrhyw ofyniad cyfraith UE penodedig; a

(b) gwneud methu â chydymffurfio â hysbysiad y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) yn drosedd.

(2) Mae adran 32(1) i (8) o'r Ddeddf([**1**]) (pwerau mynediad) yn gymwys, gyda'r addasiadau (yn achos adran 32(1)) a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 2, at ddibenion galluogi swyddog awdurdodedig o awdurdod gorfodi—

(a) i arfer pŵer mynediad i ganfod a yw bwyd nad yw'n cydymffurfio â gofyniad cyfraith UE penodedig yn cael ei werthu neu wedi ei werthu; a

(b) i arfer pŵer mynediad i ganfod a oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw doriad o ofyniad cyfraith UE penodedig.

(3) Mae adran 35 o'r Ddeddf (cosbi troseddau) yn gymwys, gyda'r addasiadau a bennir yn Rhan 3 o Atodlen 2, at ddiben pennu'r gosb am drosedd a gyflawnir o dan adran 10(2) fel y'i cymhwysir gan baragraff (1)(b).

(4) Mae adran 37 o'r Ddeddf (apelau) yn gymwys, gyda'r addasiadau a bennir yn Rhan 4 o Atodlen 2, at ddiben galluogi person i apelio yn erbyn penderfyniad i gyflwyno hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a).

(5) Mae adran 39 o'r Ddeddf (apelau yn erbyn hysbysiadau gwella) yn gymwys, gyda'r addasiadau (yn achos adran 39(1) a (3)) a bennir yn Rhan 5 o Atodlen 2, at ddiben ymdrin ag apelau yn erbyn penderfyniad i gyflwyno hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a).

(6) Mae darpariaethau'r Ddeddf a bennir ym mharagraff (7) ("y darpariaethau paragraff (7)") yn gymwys, gyda'r addasiadau a bennir yn Rhan 6 o Atodlen 2, at ddibenion y Rheoliadau hyn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r darpariaethau yn y Ddeddf, a bennir ym mharagraffau (1) i (5) ac a addesir ganddynt.

(7) Y darpariaethau yn y Ddeddf, a bennir at ddibenion y paragraff hwn, yw—

(a) adran 3 (rhagdybiaethau y bwriedir i fwyd gael ei fwyta gan bobl);

(b) adran 20 (troseddau oherwydd bai person arall);

(c) adran 21([**2**]) (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy);

(d) adran 22 (amddiffyn cyhoeddi yng nghwrs busnes);

(e) adran 29 (caffael samplau);

(**1**) Mae diwygiadau i adran 32(5) a (6), ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**2**) Diwygiwyd adran 21 gan O.S. 2004/3279.

(f) adran 30(**3**) (dadansoddi etc. samplau);

(g) adran 33(**4**) (rhwystro etc. swyddogion);

(h) adran 36 (troseddau gan gyrff corfforedig);

(i) adran 36A(**5**) (troseddau gan bartneriaethau Albanaidd);

(j) adran 44 (amddiffyn swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll);

(k) adran 53 (dehongli cyffredinol);

ac mae unrhyw gyfeiriad yn y darpariaethau paragraff (7) at adran o'r Ddeddf, gan gynnwys cyfeiriad at "any of the preceding provisions of this Part", i'w ddarllen fel cyfeiriad at yr adrannau hynny o'r Ddeddf sy'n gymwys yn rhinwedd y Rheoliadau hyn, a chyda'r addasiadau a wneir ganddynt.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 4 mewn grym ar 22.2.2020 at ddibenion penodedig, gweler **rhl. 1(2)(a)**

**I2** Rhl. 4 mewn grym ar 22.2.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym, gweler **rhl. 1(2)(b)**

(**3**) Diwygiwyd adran 30 gan baragraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999.

(**4**) Diwygiwyd adran 33 gan baragraff 3(1) a (4) o'r Atodlen i Ddeddf Bwyd (Yr Alban) 2015 (dsa 1).

(**5**) Mewnosodwyd adran 36A gan baragraff 16 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2020, Adran 4.